**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHREDU MEWN MEYSYDD DATGANOLEDIG**

**012 - Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol (Iechyd a Diogelwch) (Diwygio) 2022 [Saesneg yn unig]**
*Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 18 Hydref 2022*

| **Sifftio** | |
|---|---|
| Yn destun sifftio yn Senedd y DU? | Na fydd |
| Gweithdrefn: | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin | Amherthnasol |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Amherthnasol |
| Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU | Amherthnasol |
| Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol) | Nid yw'n ofynnol |
| **Gweithdrefn graffu** | |
| Canlyniad y broses sifftio | Amherthnasol |
| Y weithdrefn | Cadarnhaol drafft |
| Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin | Anhysbys |
| Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi | Anhysbys |

**Cefndir**

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 iddi.

**Crynodeb**

Defnyddir cynhyrchion bioleiddiadol i ddiogelu pobl ac anifeiliaid, cadw nwyddau, atal plâu fel pryfed neu gnofilod a rheoli firysau, bacteria a ffyngau drwy weithred gemegol neu fiolegol. O ganlyniad i ymadael â'r UE, ac fel rhan o fframwaith cyffredin ledled Prydain, mae'n ofynnol bellach i gynhyrchion bioleiddiadol gael eu hawdurdodi gan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o dan drefn newydd Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr. Yn benodol, mae'n ofynnol i awdurdodiadau a wnaed cyn ymadael â'r UE gael eu hail-gyflwyno i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch er mwyn i'r

Awdurdod hwnnw eu hawdurdodi o dan drefn newydd Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr.

O dan drefn Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr, mae'n ofynnol i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch brosesu ceisiadau am awdurdod o fewn 3 blynedd. Heb awdurdodiad o'r fath, ni ellir gwerthu'r cynnyrch bioleiddiadol ym Mhrydain Fawr. Yn ôl Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU i'r Rheoliadau hyn, mae dau fater sy'n deillio o ymadael â'r UE wedi achosi oedi dros dro i brosesu ceisiadau o'r fath:

1. Nid oes gan Brydain Fawr fynediad at gronfa ddata'r UE bellach, sy'n cynnwys gwybodaeth am sylweddau gweithredol bioleiddiadol.
2. Mae newid o drefn yr UE i drefn Prydain Fawr wedi arwain at fewnlifiad untro o geisiadau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch, sy'n ceisio cael eu hawdurdodi o dan drefn newydd Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr.

Canlyniad hyn yw na fydd yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gallu bodloni'r terfynau amser cyfreithiol o dan drefn Rheoliadau Cynhyrchion Bioleiddiadol Prydain Fawr. Felly, mae'r Rheoliadau hyn yn rhoi estyniad o 5 mlynedd i'r terfyn amser ar gyfer prosesu ceisiadau (hynny yw, hyd at 31 Rhagfyr 2027). Mae hyn yn golygu y gall cynhyrchion bioleiddiadol a gafodd eu hawdurdodi cyn ymadael â'r UE aros ar y farchnad yn ystod yr estyniad hwn.

**Datganiad gan Lywodraeth Cymru**

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 19 Hydref 2022 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

**Cytundeb Rhynglywodraethol ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)**

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol y Senedd o'r farn bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.